**Pennod 8 Prosesu ceisiadau ar gyfer trefniadau mynediad ac addasiadau 100**

8.1 Gwybodaeth gyffredinol **100**
8.2 Rheoliadau'r CGC a *Threfniadau mynediad ar-lein* 100
8.3 Diagnosis hwyr o anabledd, amlygiad hwyr o nam neu anaf/nam dros dro 100
8.4 Achosion na chânt eu cymeradwyo 102
8.5 Cymwysterau a threfniadau y mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn berthnasol iddynt 103
8.6 Sut i ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* 104
8.7 Blaengynllunio cyn y gyfres arholiadau 105
8.8 Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM) 106
8.9 Addasiadau eraill 106
8.10 Cymwysterau Technegol a Chymwysterau Project Caergrawnt a gaiff eu hasesu'n fewnol 107

## Atodiadau

**Atodiad 1 Cymorth cof i ddarllenydd 108**

**Atodiad 2 Cymorth cof i ysgrifennydd 109**

**Atodiad 3 Cymorth cof i Addasydd Iaith 110**

**Atodiad 4 Cymorth cof i Gyfathrebwr Proffesiynol 111**

**Newidiadau allweddol ar gyfer 2022-23**

| Adran | Paragraff | Crynodeb o'r newid |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | Gofyniad i bennaeth y ganolfan sicrhau bod digon o amser ar gael i'r CAAA i reoli'r broses drefniadau mynediad ac ymgyfarwyddo â rheoliadau'r CGC. |
| 1 | 1.7 | Trefniadau diwygiedig ar gyfer ymgeiswyr anabl gydag anghenion sylweddol a chymhleth iawn. |
| 4 | 4.2.10 | Manylion y sawl sydd ddim yn cael hwyluso trefniadau mynediad. |
| 5 | 5.1.2 | Manylion ynghylch egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth. |
| | 5.2.2 | Pa bryd i ddefnyddio mesur o gyflymder darllen testun neu gyflymder ysgrifennu fel un o'r ddwy sgôr sy'n ofynnol i gael 25% o amser ychwanegol. |
| | | Gofynion tystiolaeth i gael 25% o amser ychwanegol yn gysylltiedig â llenwi Ffurflen 8. |
| | 5.3.2 | Pa bryd i ddefnyddio mesur o gyflymder darllen testun neu gyflymder ysgrifennu fel un o'r ddwy sgôr sy'n ofynnol i gael 50% o amser ychwanegol. |
| | 5.5.5 | Tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd. |
| | 5.16 | Trefniadau ychwanegol nad oes angen cyflwyno cais drwy TMA ar eu cyfer. |
| | | Arweiniad pellach ynghylch goruchwyliaeth ar wahân. |
| 7 | 7.4.1 | Enghreifftiau o dystiolaeth i ddangos bod y cymwysterau addas gan yr aseswr. |
| | 7.5.10 | Pa bryd y gellir ac na ellir defnyddio mesur o gyflymder darllen testun fel tystiolaeth i gael 25% o amser ychwanegol. |
| | 7.5.11 | Pa bryd na ellir defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel tystiolaeth i gael 25% o amser ychwanegol. |
| 8 | 8.5 | Trefniadau ychwanegol nad oes angen cyflwyno cais drwy TMA ar eu cyfer. |
| | 8.8 | Cymwysterau TLM - trefniadau ychwanegol wedi'u dirprwyo i'r ganolfan. |

## Trosglwyddo Ffurflen 8 lle mae ymgeisydd â chais sydd wedi dod i ben am 25% o amser ychwanegol yn awyddus i wella ar ganlyniad TGAU, TAG US neu Safon Uwch a ddyfarnwyd yn flaenorol yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23

Gyda'r newidiadau i'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer 25% o amser ychwanegol ym mis Medi 2021, mae'n bwysig na fydd ymgeiswyr sydd â chais ar-lein a gymeradwywyd yn flaenorol am 25% o amser ychwanegol o dan anfantais os byddant yn dymuno gwella ar ganlyniad TGAU, UG neu Safon Uwch a ddyfarnwyd yn flaenorol yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Os yw ymgeisydd yn dymuno cael ei gofrestru ar gyfer arholiadau yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 er mwyn gwella ar radd flaenorol, gall y CAAA drosglwyddo'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Ffurflen 8. Gellir parhau i ddyfarnu 25% o amser ychwanegol i'r ymgeisydd yn seiliedig ar y meini prawf blaenorol o un sgôr wedi'i safoni o leiaf yn is na'r cyfartaledd o 84 neu lai.

**Rhaid** i'r CAAA sicrhau bod y dystiolaeth ar y ffeil o hyd i gefnogi cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol a'i bod ar gael i'w harchwilio. Bydd angen i'r CAAA ateb y cwestiynau yn ofalus wrth brosesu cais ar-lein newydd.

Wrth brosesu cais ar-lein, dylid dewis y trefniant mynediad 25% o amser ychwanegol (ailsefyll 2022/23).

# Gofynion tystiolaeth am 25% o amser ychwanegol

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 1, Ffurflen 8 (yn dangos tystiolaeth o angen a'r ffordd arferol o weithio)**<br><br>+<br><br>**Rhan 2, Ffurflen 8 yn dangos:**<br><br>O leiaf ddwy sgôr wedi'u safoni o 84 neu'n is sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio;<br><br>**neu**<br><br>un sgôr o 84 neu'n is **ac** un sgôr rhwng 85 ac 89 sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio.<br><br>**Nid oes angen** samplau o dystiolaeth. | **Rhan 1, Ffurflen 8 (yn dangos tystiolaeth o angen a'r ffordd arferol o weithio)**<br><br>+<br><br>**Rhan 2, Ffurflen 8 yn dangos:**<br><br>Dwy sgôr neu fwy rhwng 85 ac 89 sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio.<br><br>+<br><br>**Samplau o dystiolaeth**<br><br>• sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r amser ychwanegol;<br><br>**neu**<br><br>• IEP/ILP yn cyfeirio at yr angen am amser ychwanegol;<br><br>**neu**<br><br>• sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam y mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut y mae ef/hi'n defnyddio'r amser ychwanegol hwnnw. | **Rhan 1, Ffurflen 8**<br><br>Tystiolaeth o'r ffordd arferol o weithio yn y ganolfan gan ddangos hanes helaeth o angen ac effaith andwyol glir, fesuradwy, sylweddol a thymor hir ar berfformiad a chyflymder gweithio (h.y.<br><br>+<br><br>**Rhan 2, Ffurflen 8 yn dangos:**<br><br>Clwstwr o sgorau wedi'u safoni (tri o leiaf) yn ymwneud â thri maes gwahanol o gyflymder gweithio o fewn yr ystod gyfartalog, 90 i 94.<br><br>+<br><br>**Samplau o dystiolaeth**<br><br>• adroddiad o asesiad diagnostig, **o gyfnod ddim cynharach na Blwyddyn 9**, yn cadarnhau anhawster dysgu neu anabledd sylweddol; (**Rhaid** bod hyn wedi'i wneud gan seicolegydd wedi'i gofrestru â HCPC neu athro sy'n aseswr arbenigol.)<br><br>**a**<br><br>• sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r amser ychwanegol;<br><br>**a**<br><br>• IEP/ILP yn cyfeirio at yr angen am amser ychwanegol;<br><br>**a**<br><br>• sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam y mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut y mae ef/hi'n defnyddio'r amser |

| | | |
|---|---|---|
| | | ychwanegol hwnnw.<br><br>Gan fod yr achosion hyn yn brin ac yn hynod eithriadol, efallai y bydd y diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o gymorth i ganolfannau.<br><br>Cynghorir seicolegwyr sydd wedi'u cofrestru â HCPC ac athrawon sy'n aseswyr arbenigol i ystyried, mewn achosion eithriadol ac anghyffredin, yn enwedig lle mae gan yr ymgeisydd anghenion dysgu cymhleth, a allai paragraff 5.2.3 fod yn berthnasol. |

## Lle mae ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i TAG

**Rhaid** prosesu cais ar-lein newydd am ysgrifennydd pan fydd yr ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG a/neu Safon Uwch.

Bydd asesiad a gynhaliwyd **yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9** (Rhan 2 Ffurflen 8) yn argymell ysgrifennydd ar gyfer arholiadau TGAU yn ddilys ar gyfer arholiadau TAG UG a Safon Uwch.

Gallai Ffurflen 8 gyflawn (Rhannau 1, 2 a 3), wedi'i llofnodi a'i dyddio, gael ei throsglwyddo o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG†. Nid oes angen asesiad pellach.

Fodd bynnag, er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, mae'n **rhaid** bod tystiolaeth ar gael gan y CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan, sy'n dangos yn glir bod angen ysgrifennydd o hyd ar gyfer arholiadau TAG UG a/neu Safon Uwch. (**Rhaid** cynhyrchu'r dystiolaeth hon yn seiliedig ar y ganolfan wedi'i diweddaru ar bapur/templed â phennawd y ganolfan, wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y CAAA, yn ymwneud yn benodol ag arholiadau TAG UG a/neu Safon Uwch.) **Rhaid** i'r dystiolaeth wneud y canlynol:


- cadarnhau mai defnyddio ysgrifennydd yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan **o hyd** o ganlyniad uniongyrchol i'w anabledd o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010;
- darparu tystiolaeth gan staff addysgu bod gan yr ymgeisydd anawsterau parhaus a sylweddol, a sut mae'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar addysgu a dysgu.

†Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG a/neu Safon Uwch lle bydd yr ymgeisydd yn yr un ganolfan o hyd neu'n symud i ganolfan wahanol.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn newid canolfan, **rhaid** darparu'r Ffurflen 8 wreiddiol wedi'i chwblhau neu gopi PDF ohoni, ynghyd â thystiolaeth o gymhwyster yr aseswr. Disgwylir y bydd Cydlynwyr AAA yn darparu'r dystiolaeth hon er mwyn helpu eu cymheiriaid mewn colegau AB.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff o fewn coleg AB, sicrhau bod cynnig ysgrifennydd yn parhau'n briodol, yn ymarferol ac yn rhesymol.

**Rhaid** edrych ar Ffurflen 8 i sicrhau bod pob rhan o'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i bod wedi'i llofnodi a'i dyddio **cyn** prosesu cais ar-lein newydd am ysgrifennydd.


Ceisiadau am Drefniadau Mynediad
Mewngofnodi i CAP o unrhyw safle allrwyd diogel gan y corff dyfarnu
Trefniadau Mynediad ar-lein
Creu Cais
Chwilio am ymgeisydd presennol
Ymgeisyddd yn bodoli
Na
Creu ymgeisydd newydd
Ydy
NEWYDD
Manylion yr ymgeisydd
Cymhwyster/math o gais/blynyddoedd
Trefniadau Mynediad gofynnol
Ateb cwestiynau sy'n ofynnol
Blaenorol
Dileu
Cadw a chau
Cyflwyno
Cymeradwywyd
Do
Naddo
Argraffu cais (neu storio'n electronig)
Anfon at y corff dyfarnu
Dewiswch CD a rhoi manylion TM ac arholiadau
Tystiolaeth o angen a manylion cyswllt
Blaenorol
Canslo
Cadw a chau
Cyflwyno

